

# Ysgolion caredig i anifeiliaid

## Sut gall ysgolion fod yn llefydd caredig i anifeiliaid?

Mae ysgolion caredig i anifeiliaid yn gwneud mwy na dim ond dysgu plant am anifeiliaid. Maent yn annog athrawon a disgyblion i feddwl am anghenion anifeiliaid a datblygu synnwyr o ofal amdanynt a chyfrifoldeb drostynt.

### Y manteision

Mae ysgol garedig i anifeiliaid:

- yn hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb a pharch at bob peth byw
- yn dysgu disgyblion am anifeiliaid a'u hanghenion
- yn ymwybodol o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid ac yn ufuddhau iddi
- yn edrych ar faterion moesol a moesegol cyfoes pwysig fel arbrofi ar anifeiliaid ac effaith pobl ar yr amgylchedd
- yn annog cydymdeimlad a dealltwriaeth o anifeiliaid
- yn berthnasol i fywyd bob dydd.



### Sut gall yr RSPCA helpu

- Mae gwasanaeth cefnogi addysg yr RSPCA sy'n rhad ac am ddim yn helpu athrawon i ddatblygu dinasyddion gwybodus, cyfrifol a gweithredol, ac yn helpu ysgolion i fod yn fwy caredig i anifeiliaid.
- Mae gan ein gwefan addysg – [www.rspca.org.uk/education](http://www.rspca.org.uk/education) – amrywiaeth o adnoddau, yn gysylltiedig â chwricwla Cymru a Lloegr, y gellir eu lawrlwytho am ddim ac sy'n cynnwys taflenni ffeithiau, taflenni gweithgareddau a lluniau.
- Mae gennym dîm o gynghorwyr addysg, hyfforddiant a datblygiad a all drefnu sesiynau HCA a HMS i ddangos sut y gellir defnyddio lles anifeiliaid fel canolbwynt neu gyd-destun i gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol. I gael manylion cysylltu, ewch i [www.rspca.org.uk/education](http://www.rspca.org.uk/education)

## Meysydd i'w hystyried

### Cyfleoedd yn y cwricwlwm

- Gall lles anifeiliaid fod yn bwnc traws-gwricwlwm neu gellir ei gynnwys o fewn pwnc penodol fel gwyddoniaeth, dinasyddiaeth neu ABCh a Saesneg neu Gymraeg.
- Mae'r cwricwlwm dinasyddiaeth cyfredol yn cynnig cyfleoedd penodol i ddysgu am faterion lles anifeiliaid ar y lefel gynradd ac uwchradd.
- Ewch i [www.rspca.org.uk/education](http://www.rspca.org.uk/education) am ragor o wybodaeth.

### Clybiau ar ôl yr ysgol

- Gallai lles anifeiliaid fod yn flaenoriaeth i glybiau ar ôl yr ysgol - bydd plant a phobl ifanc sydd â diddordeb arbennig mewn anifeiliaid yn awyddus i ddysgu sut i ofalu amdanynt yn iawn.
- Ewch i [www.rspca.org.uk](http://www.rspca.org.uk) ac edrych ar y wefan The Den.

## Anifeiliaid mewn Ysgolion

- Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu defnyddio anifeiliaid ar gyfer addysg pan fo'n debygol bod neu y bydd hynny'n achosi trallod neu ddioddef. Mae'r RSPCA yn credu y gellir addysgu plant a phobl ifanc am anifeiliaid heb gadw anifeiliaid anwes yn yr ystafell ddsbarth.
- Dyma rai o'r dewisiadau eraill yn hytrach na defnyddio anifeiliaid:
  - ✓ teganau meddal a phropiau
  - ✓ gweithgareddau chwarae rôl a drama
  - ✓ llyfrau, fideos, DVDau a CD-ROMau
  - ✓ sylwi ar ymddygiad anifeiliaid yn eu cynefin naturiol
  - ✓ datblygu ardal bywyd gwyllt ar dir yr ysgol.
- Mae'r RSPCA'n dadlau'n gryf yn erbyn cadw anifeiliaid mewn ysgolion. Gall ysgolion fod yn llefydd swnllyd a brawychus i rai anifeiliaid ac mae'n anodd iawn gofalu am anghenion unrhyw anifail mewn ystafell ddsbarth. Mae hyn yn wir am unrhyw anifail, gan gynnwys marchfalwod Affricanaidd y tir a physgod.
- Mae unrhyw aelodau o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am fod ag anifail neu anifeiliaid ar dir neu yn adeiladau'r ysgol - boed hynny dros dro neu'n barhaol – nawr o ganlyniad i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gorfod sicrhau bod anghenion yr anifeiliaid hynny'n cael eu diwallu. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - ✓ eu hangen am amgylchedd addas
  - ✓ eu hangen am ddiet addas (bwyd a dŵr ffres)
  - ✓ eu hangen i allu ymddwyn mewn ffordd naturiol
  - ✓ unrhyw angen sydd ganddynt i fyw gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt,
  - ✓ a'u hangen i gael eu gwarchod rhag poen, dioddef, anaf a chlefyd.Nid yw'r cyfrifoldebau hyn yn dod i ben pan ddaw diwrnod yr ysgol i ben. Maent yn parhau cyhyd ag y bo'r anifail yn yr ysgol, gan gynnwys gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae cyfrifoldeb personol yn bodoli pa un a brynwyd yr anifail dan sylw gan yr ysgol neu a yw'n eiddo i un o'r disgyblion neu ei rieni. Os nad yw anghenion anifail yn cael eu diwallu tra bo'r anifail yn yr ysgol, mewn egwyddor gellid dod ag achos troseddol yn erbyn pawb dros 16 oed a oedd â chyfrifoldeb dros yr anifail hwnnw, gan gynnwys staff yr ysgol.
- Ewch i <http://www.rspca.org.uk/allaboutanimals/pets/general> am wybodaeth am anghenion penodol anifeiliaid a gedwir fel anifeiliaid anwes.

## Magu anifeiliaid yn yr ysgol

- Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu magu anifeiliaid mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio deoryddion wyau, pecynnau bridio gloynnod byw a malwod, pryfed, morgrug a griff brogaod.
- Mae'n anodd gwarantu lles anifeiliaid a fegir yn yr ysgol ac mae'r RSPCA yn credu nad yw rhaglenni astudio o'r fath yn hyrwyddo agweddau cyfrifol at ofalu am anifeiliaid.

## Dyrannu

- Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu dyrannu anifeiliaid ag asgwrn cefn ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn mewn ysgolion. Mae'n credu y gall dyrannu unrhyw anifail yn yr ysgol - gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn - arwain at ddisensiteiddio a llai o barch at fywyd ymhlith disgyblion.
- Mae ffyrdd eraill o addysgu am anatomi anifeiliaid yn cynnwys modelau, fideos ac efelychiadau cyfrifiadurol.

## Ymwelwyr ag anifeiliaid a digwyddiadau sy'n cynnwys anifeiliaid

- Nid yw cynlluniau sy'n cynnwys siaradwyr gwadd a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid bob amser yn rhoi anghenion yr anifeiliaid yn gyntaf.

- Yn aml caiff anifeiliaid eu cludo o dan amodau anaddas, ac mae swm ac anghyneffindra amgylchedd yr ysgol yn gallu peri trallod iddynt.
- Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu digwyddiadau ac achlysuron codi arian mewn ysgolion sy'n cynnwys anifeiliaid, gan na ellir gwarantu lles yr anifeiliaid bob amser. Mae digwyddiadau o'r fath yn cynnwys rasys mulod, moch, defaid neu falwod, dangos adar ysglyfaethus, sioeau anifeiliaid anwes a digwyddiadau lle caiff anifeiliaid eu defnyddio fel gwobrau.
- Mae'n anghyfreithlon cynnig anifail yn wobwr i unrhyw un o dan 16 oed nad yw yng nghwmni oedolyn, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau penodol a nodir yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006.
- Efallai bod rhyddhau balwms yn hwyl ond gall y balwms niweidio'r amgylchedd, a niweidio anifeiliaid hefyd os byddant yn eu bwyta.
- Dyma rai dewisiadau eraill yn hytrach na digwyddiadau cysylltiedig ag anifeiliaid:
  - ✓ clirio sbwriel noddedig
  - ✓ mynd â chŵn am dro noddedig
  - ✓ sioe anifeiliaid anwes ffotograffig lle gall disgyblion ddod â lluniau o'u hanifeiliaid anwes neu eu hoff anifeiliaid.

### Amgylchedd yr ysgol

Dyma rai syniadau a allai fod yn addas i **gyngor yr ysgol** eu hystyried:

- **Tir yr ysgol**  
Mae'r RSPCA yn argymhell y dylech ddatblygu tir yr ysgol i'w wneud yn brafiach i anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar sbwriel a pheryglon eraill a rheoli ardaloedd i annog a diogelu bywyd gwylt. Am ragor o wybodaeth gweler yr adnoddau ar gyfer gwersi 'tir yr ysgol' ar [www.rspca.org.uk/education](http://www.rspca.org.uk/education)
- Bydd ardaloedd bywyd gwylt a chadwraeth ar dir yr ysgol yn denu amrywiaeth eang o fywyd gwylt. Gall y disgyblion ddysgu am yr anifeiliaid a'u cynefinoedd ac ystyried materion amgylcheddol fel bioamrywiaeth a chyd-ddibyniaeth.
- **Sbwriel**  
Bob dydd, bydd Arolygwyr yr RSPCA yn achub anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwylt sydd wedi cael eu dal mewn sbwriel neu eu hanafu gan sbwriel. Gall hyd yn oed sbwriel a gafodd ei roi mewn bin sbwriel fynd yn y diwedd i safle tirlenwi a pheryglu anifeiliaid.
- Holwch beth sy'n digwydd i'r gwastraff o'ch ysgol chi. Anogwch ailgylchu a gwneud yn siŵr bod y gwastraff yn ddiogel i anifeiliaid:
  - ✓ Gall y cylchoedd plastig sy'n dal caniau dagu anifeiliaid - torrwrch nhw'n ddarnau
  - ✓ Gall bagiau plastig fygu anifeiliaid - rhowch gwllwm ynddynt a chael gwared arnyn nhw mewn ffordd ddiogel
  - ✓ Gall poteli dorri ac anafu anifeiliaid - ailgylchwch nhw'n ddiogel
  - ✓ Gall anifeiliaid fynd yn sownd mewn tuniau - tynnwch y caeadau, eu rhoi y tu mewn i'r tun a gwasgu'r agoriad i'w gau
  - ✓ Gall balwms ladd os cânt eu bwyta - peidiwch â rhyddhau balwms a thorrwrch hen falwms yn ddarnau
- **Bwyd**  
Mae'r RSPCA yn gwrthwynebu pob math ar ffermio sy'n peri trallod neu ddiodef, neu sy'n rhwystro anifail rhag ymddwyn yn naturiol.
- Mae'r RSPCA yn gweithio i annog newidiadau mewn agweddau at anifeiliaid fferm ac i ddatblygu a gweithredu systemau sy'n diwallu anghenion corfforol ac ymddygiadol penodol rhywogaethau unigol.
- Mae Freedom Food, a sefydlwyd gan yr RSPCA, yn gynllun sicrhau ansawdd ffermydd sy'n canolbwyntio'n bennaf ar les anifeiliaid. Mae'r RSPCA yn gosod y safonau ar gyfer pob un o'r rhywogaethau a ddaw o fewn y cynllun. Mae'r rhain wedi eu seilio ar ymchwil wyddonol, cyngor milfeddygon a phrofiad ymarferol o ffermio. Caiff cynhyrchion â'r label Freedom Food eu cynhyrchu ar ffermydd a arolygwyd yn ôl safonau lles yr RSPCA. Am ragor o wybodaeth gweler [www.freedomfood.co.uk](http://www.freedomfood.co.uk)

- Annog darparwyr bwyd ysgolion i gyflwyno bwydlenni sy'n fwy caredig i anifeiliaid (e.e. cynhyrchion ffermydd â label Freedom Food).
- **Nwyddau glanhau**  
Nod yr RSPCA yn y pen draw yw disodli arbrofion ar anifeiliaid â ffyrdd eraill caredig. Hyd nes y gellir gwneud hyn, dylai anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio mewn ymchwil gael eu trin yn garedig a thrugarog bob amser. Mae'r RSPCA felly'n ymgyrchu dros 'y tair nod':
  - ✓ Disodli anifeiliaid labordy â dewisiadau eraill caredig
  - ✓ Lleihau'r nifer o anifeiliaid a ddefnyddir
  - ✓ Gwella arbrofion a phob agwedd ar gartrefu anifeiliaid a gofalu amdanynt er lles anifeiliaid ac fel eu bod yn dioddef llai.
- Annog staff glanhau ac arlwyio i ddefnyddio nwyddau glanhau nad ydynt wedi eu profi ar anifeiliaid.

### Cod ymddygiad

- Mae'r RSPCA yn argymhell y dylai ysgolion lunio cod ymddygiad ar gyfer astudio anifeiliaid yn eu cynefin. Er enghraifft:
  - ✓ dangos parch i anifeiliaid ac i'r llefydd y maent yn byw ynddynt
  - ✓ peidio byth â thrafod anifeiliaid â llaw - tynnu lluniau neu ffotograffau yn hytrach
  - ✓ symud yn dawel ac araf er mwyn peidio â tharfu ar anifeiliaid - a gofalu peidio â sathru ar unrhyw anifeiliaid sy'n crocian/hedfan i ffwrdd
  - ✓ gadael cartrefi anifeiliaid yn union fel y cawsoch hyd iddynt - os byddwch yn troi boncyffion a chreigiau rhowch nhw'n ôl fel y cawsoch hyd iddynt
  - ✓ peidio â gollwng sbwriel.



### Tripiau ysgol

- Mae sylwi ar anifeiliaid caeth, gan gynnwys mewn sŵau, ar ffermydd ac mewn parciau saffari, canolfannau achub a llochesi, yn codi nifer o gwestiynau am les anifeiliaid:
  - ✓ Ydy'r anifeiliaid yn ymddwyn yn naturiol?
  - ✓ Ydy eu hanghenion yn cael eu diwallu?
  - ✓ Beth mae'r disgyblion yn ei ddysgu am yr anifeiliaid a'u hanghenion o'u gweld yn gaeth?
- Mae'r RSPCA yn argymhell defnyddio'r rhestr wirio hon cyn mynd â disgyblion i rywle lle mae anifeiliaid:
  - ✓ Ewch i'r lleoliad cyn y trip i asesu materion lles anifeiliaid a allai godi a nodi unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch.
  - ✓ Gofynnwch i ddisgyblion feddwl am yr anifeiliaid, eu hanghenion a'u ffordd naturiol o fyw cyn yr ymweliad. Nodwch am beth y byddant yn edrych a pham.
  - ✓ Lluniwch god ymddygiad ar gyfer yr ymweliad gyda'r disgyblion er mwyn amharu cyn lleied ag y bo modd ar yr anifeiliaid a'u cartrefi.
  - ✓ Tynnwch sylw at anghenion yr anifeiliaid a holi a ydynt yn cael eu diwallu gydol yr ymweliad - anogwch y myfyrwyr i ganolbwyntio ar ansawdd amgylchedd yr anifeiliaid.
  - ✓ Trafodwch unrhyw faterion lles anifeiliaid ar ôl yr ymweliad.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.rspca.org.uk/education](http://www.rspca.org.uk/education) neu anfonwch e-bost at [education@rspca.org.uk](mailto:education@rspca.org.uk)**

Lluniau: Stuart Trotter